# JEREMY, JOHN (DAVID) (1782 - 1860), pregethwr ac ysgolfeistr

**Enw:** John (David) Jeremy
**Dyddiad geni:** 1782
**Dyddiad marw:** 1860
**Plentyn:** Rachel Evans (née Jeremy)
**Plentyn:** Walter David Jeremy
**Plentyn:** D.D. Jeremy
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** pregethwr ac ysgolfeistr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg
**Awdur:** John David Jones

Ganwyd 28 Hydref 1782 yn ffermdy Cwmynys, gerllaw Caerfyrddin. Bu yng Ngholeg Annibynnol Wrecsam (1803, am dymor byr); Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin (1804-8); yn ysgolfeistr yn Llanybri; yn athro teulu yn Saethon, Ll n; ac yn weinidog eglwys Annibynnol Salem, Llanymddyfri (ordeiniwyd 20 Ebrill 1815). Cyfnewid araf o Galfiniaeth at Undodiaeth a fu ei hanes. Gweler ysgrif arno gan ei fab, y Parch. D. D. Jeremy, yn *Ymofynydd* 1897, 349. Wedi iddo briodi â gweddw y Parch. Evan Davies, Caeronnen, daeth yn weinidog Caeronnen (1819-46) a'r Cribin (1819-22). Pregethodd yn gyson, heb fugeiliaeth arall, hyd ei farw, a bron hyd y diwedd bu'n cadw ysgol. Bu farw 15 Tachwedd 1860. Claddwyd ym mynwent plwyf Llanbedr-Pont-Steffan.

## Awdur

**Y Parchedig John David Jones**, (1898 - 1959)

## Ffynonellau


Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), i, 612

*Oriel Coleg Caerfyrddin* (1909), 26

*The Unitarian Students at the Presbyterian College, Carmarthen ... 1796–1901* (1901)

*Yr Ymofynnydd*, 1928, i, 154


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733484


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu